# CYNGHORYDD SEAN WHARTON

# FFIGWR CYHOEDDUS

## ETIFEDDIAETH

Wedi'i eni yng Nghasnewydd, mae gwreiddiau teulu Sean yn olrhain i St Christopher (St Kitts) yn y Caribî.

Siapiwyd yr aelwyd gan gerddoriaeth, ffydd, balchder a chymuned, tra bo Cymru'n siapio'r bachgen y tu allan.

O oedran ifanc deallodd y gallai hunaniaeth gynnal y ddau - Cymreig a Charibïaidd.

## CYMRU YW...

BALCHDER ANGERDD FFYRNIGRWYDD

Mae Sean yn galw ei hun yn fachgen Casnewydd ac yn cario balchder dwfn o Gymru.

Daeth y balchder hwnnw'n real pan oedd yn 14 oed ac fe gynrychiolodd 'Wales Schoolboys', gan ddod y chwaraewr Du cyntaf i wneud hynny.

"GALL BOD YN WAHANOL FOD YN BWERUS."

PIONEER OF WALES



## CYFRANIAD

Aeth Sean ymlaen i chwarae pêl-droed proffesiynol gyda Sunderland, profiad a siapiodd ei wydnwch a'i arweinyddiaeth.

Heddiw mae'n gweithio fel Cynghorydd i ddylanwadu ar newid, ac fel Cadeirydd Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Uniondeb Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Trwy addysg a gwaith gwrth-hiliaeth gyda'r heddlu, ysgolion a chymunedau, mae'n parhau i herio anghydraddoldeb ledled Cymru.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Teulu yw llawenydd mwyaf Sean; ei blant, ei wyrion, a'r etifeddiaeth y maent yn ei hadeiladu gyda'i gilydd.

"MAE DEALLUSRWYDD EMOSIYNOL YN ALLWEDDOL.
DOES DIM RHAID I CHI YMLADD YN GORFFOROL BOB AMSER;
GALLWCH YMLADD AR LAFAR."